

# Llais Llandyrnog Voice

✉ [llandyrnognews@gmail.com](mailto:llandyrnognews@gmail.com) 🐦 @LlaisLlandyrnog

Rhagfyr 2021 – Cyfrol 7- Rhifyn 3

## Arwen stormus



(Llun: Julie Hughes)

Fel sawl man arall yng Nghymru, deffrodd trigolion Llandyrnog a Llangwyfan i weld dinistr a difrod ym mhob man ar ôl Storm Arwen. Caewyd y ffyrdd i Ddinbych, Bodfari a Llanrhaeadr gan goed wedi'u disgyn. Roedd rhai ardaloedd yn y pentre heb drydan, ond fel arfer, daeth caredigrwydd i'r amlwg a gwelwyd sawl cynnig o help ar dudalen Facebook Cymuned Llandyrnog.

Aeth bore coffi'r Gymdeithas Hanes yn ei flaen yn neuadd y pentre, yn rhoi diodydd poeth am ddim i'r rheini a oedd yn ddigon dewr i fentro allan. Er nad oedd trydan yn y neuadd, roedd digon o ddŵr poeth ar gael o gartre ffodus a oedd wedi osgoi'r toriad.

**Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cyfrannu erthyglau i'r rhifyn hwn ac i'r rheini sydd wedi cyfrannu'n hael yn ariannol.**

**Mae'r cyfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr.**

**Pan fyddwch chi'n cael eich copi o'r Llais o swyddfa'r post neu o'r siop gig, cofiwch roi cyfraniad yn y bocsys casglu, os gwelwch yn dda.**

## Ymdeoliad hapus!



Ddydd Sul olaf Tachwedd, ffarweliodd y plwyfolion a'u Rheithor, y Parch. Val Rowlands. Pob dymuniad da i Val ar ei hymddeoliad haeddiannol ac i hithau a Trefor yn ei hen gartref yn Llanbedr DC. Galwch heibio ambell waith, Val, bydd croeso cynnes i chi yma!



**Nadolig llawen  
iawn i'n holl  
ddarllenwyr**

# Pytiau newyddion y pentre

**Geni** Llongyfarchiadau calonnog i Dafydd a Gwenno, Groes Efa ar enedigaeth lanto Dafydd, brawd bach i Mabon a Medi; i Irving ac Anna Lea, Henllan ar enedigaeth merch fach, Kaya, gorwyres i Winnie Wilson; i Rob a Jordan ar enedigaeth Willa Fleur, wŷyr i Stuart a Melanie Roberts.

**Pob dymuniad** da i Glyn 'Archie' Davies, Gwilym Evans ac Earle Wright ar ôl cyfnod yn yr ysbyty'n ddiweddar

**Pob dymuniad da** i Jamie a Tabitha sydd wedi symud i 29, Maes Clwyd, ac i Jack, Alys a Douglas sydd wedi cartrefu yn Mountain View.

## **Cydymdeimlwn â'r canlynol:**

Ryan a Glesni Tŷ Gerddi - Ryan wedi colli ei dad yn diweddar - Emyr Pierce, Garreglwyd, Nantglyn. Roedd Emyr hefyd yn gefnder i Margaret, Awel y Foel;

Gerald Wills, Pennaeth Cwmni Sifil Mulcair, a'i deulu o Bontnewydd, bu farw ei fab Paul yn ddiweddar. Un o hogiau Llandyrnog ydi Gerald ac yn falch iawn o'i wreiddiau;

Gwen ac Ivan a a'r teulu – Gwen wedi colli ei thad, Ted Evans BEM, Rhewl yn 99 oed. Er ei fod yn byw yn Rhewl roedd ganddo feddwl y byd o Landyrnog a Llangwyfan – dyna lle y cyfarfu â'i ddiweddar wraig Joan (Hewitt), nyrs yn Sanatoriwm Llangwyfan, tra oedd yn gweithio yno yn 1950au cynnar. Rhoddodd sawl gwern Cymorth Cyntaf Ambiwlans Sant Ioan yn yr Ystafelloedd Coco;

â theuluoedd Haf, Arwel a Lowri (yn cynnwys wyth wŷyr ac un gor-wŷyr) o golli eu tad, Lesley Griffiths, Llanwnda, Caernarfon yn 96 oed. Roedd Lesley yn was sifil yng Nghaernarfon ac Amwythig, cyn ymddeol i Lanwnda. Cofir amdano fel aelod gwerthfawr o gymuned Llandyrnog – roedd yn ysgrifennydd Cynghrair Pêl-droed yr Haf, ac yn warden a thrysorydd Eglwys Sant Tyrnog.

**Sêr y Sgrin** Mae Terry Duffy a Ray Hamill o'r pentre' yn aelodau o gôr Trelawnyd. Bu rhaglen ar S4C yn 2019 yn dilyn ymdrech y côr i geisio denu aelodau newydd, a'u dilyn mewn ymarferion canu, a'u taith ddiweddar i'r UDA. Bellach, addaswyd y rhaglenni'n un ffilm ddogfen gyfan o'r enw *Men Who Sing* gan y cynhyrhydd Dylan Williams, mab Ednyfed Williams, Dinbych, un o aelodau gwreiddiol y côr.

Yn y ffilm, ceir portread o Gôr Trelawnyd o ran cyfeillgarwch yr aelodau a chynhesrwydd cymuned eang y côr yn Nhrelawnyd a'r cyffiniau.

**Sunday Politics Wales** Bu Arwyn Evans, Pennaeth Datblygu Grŵp Cynefin yn siarad ar Raglen *Sunday Politics Wales* BBC Cymru fore Sul 7fed Tachwedd, am yr heriau sy'n wynebu cymdeithasau tai wrth iddyn nhw gynllunio ar gyfer dyfodol sero carbon.

## **Llongyfarchiadau i ...**

... Dafydd Roberts, Croeso, cyfarwyddwr a phennaeth adran cyfraith trosedd Gamlins Law sydd wedi ei benodi i LexisNexis, arbenigwyr byd-eang yng nghyfraith rheoli a busnes. Cafodd Dafydd ei benodi i Banel Cymru, a bydd yn chwarae ei ran i sicrhau y bydd y gwasanaethau cyfreithiol yng Nghymru o'r safon uchaf posib drwy roi arweiniad ac ymchwil o ran cyfraith Cymru.

... Y cogydd Bryn Williams a'i fwyty, Porth Eirias, sydd wedi'i gydnabod ymysg y bwytai gorau yn Iwerddon a'r DU am ei 'fwyd o ansawdd rhagorol' – a hynny allan o 1700 o fwytai! Mae wedi ei gynnwys yn arweinlyfr newydd sbon yr AA ar gyfer y flwyddyn 2022.

**Oriau agor Swyddfa'r Post**

**Dyddiau Llun Mawrth, Iau, Gwener**

**9am–12pm, 2pm–5pm**

**Dyddiau Mercher, Sadwrn 9am–12.30**

**01824 790310**



# Codi arian

Bore Sadwrn, 13 Tachwedd cynhaliwyd bore coffi er cof am Olwen Roberts, Maes Clwyd. Roedd y neuadd yn orlawn i'r digwyddiad, a gwnaed elw o £1000 tuag at y Clwb y Gateway ac Awyr Ambiwllans Cymru. Dymuna'r teulu ddiolch yn ddiffuant am y gefnogaeth, yn enwedig Diane (yng nghanol y llun uchaf) a Jamie (y llun isaf ar y dde). Daeth ymwelydd arbennig i'r neuadd hefyd – Mark, mab Olwen, sy'n byw yn Ninbych erbyn hynny (y llun isaf ar y chwith).



Llwyddwyd i godi bron £500 mewn bore coffi yng Nghae Nant fore Sadwrn 7fed Tachwedd tuag at gael diffibriliwr yng Nghae Nant. Mewn noson cwis yn y Golden Lion nos Wener 12fed, llwyddwyd i godi bron £400, gyda Phil O'Loughlin fel cwis feistr, a Marc a Sam yn helpu. Dymuna'r trefnwyr ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.



Mae'r digwyddiadau hyn yn amlygu haelioni trigolion Llandyrnog – £1900 wedi'u codi mewn wyth diwrnod. Gallwn ddweud ein bod yn byw mewn pentre rhyfeddol.


## *Cyfarchion y Nadolig*

Mae Wyn Wilson, Monfa, yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau, ei chymdogion, a darllenwyr *Llais Llandyrnog*.

Mae Margaret Evans, Awel y Foel, yn anfon cyfarchion y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd at ei ffrindiau a'i chymdogion.

Cyfarchion y tymor gan Bryn ac Anwen, Bryn Ffolt – gan ddymuno iechyd da, hapusrwydd a heddwch dros gyfnod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Dymuna Elwyn ac Olga, Ger y Llan, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w ffrindiau a'u cymdogion.



**Grace Jones** Hoffem ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi anfon negeseuon, cardiau, a dymuniadau gorau i Anti Grace sydd yn dal yn yr ysbyty. Mae hi'n ddiolchgar dros ben.

Mae Anti Grace wedi gofyn i ni anfon ei dymuniadau gorau at bawb y Nadolig hwn a'r Flwyddyn Newydd *Alison a Nicola*

Mae **Sylvia Evans** yn diolch yn fawr i'w theulu, ei ffrindiau a'i chymdogion am y gofal ardderchog a gafodd yn ystod y toriad trydan diweddar. Roedd pob cynnig a gweithred o help yn werthfawr iawn.

# Teisennau brau

‘Beth am baned a bisged?’ – dyna’n cri’n amal iawn ganol bore neu ganol pnawn ynte?

Wyddoch chi fod pobl y DU yn prynu 96 paced o fisgedi y flwyddyn yr un, a bod pob person yn bwyta 11 bisged yr wythnos ar gyfartaledd? Ydych chi’n un ohonyn nhw? Beth ydi hanes y fisged? Mae’r gair bisged yn tarddu o’r geiriau

Lladin *bis cotus*, oedd yn golygu pobi rhywbeth ddwywaith yn ôl yn Oes y Rhufeiniaid, a datblygodd y syniad hwn drwy’r Canol Oesoedd. Erbyn heddiw, mae’r fisgeden mor boblogaidd – fe gewch chi un ar gyfer pob achlysur.

Mewn arolwg diweddar o’r holl fisgedi sy ar y farchnad e.e.: *Bourbons, Custard Creams, Rich Tea, Jammie Dodgers, Chocolate Digestives, Shortbread, Garibaldi, Ginger snaps* ayb. Rhif 1 ar y rhestr oedd y *Chocolate Digestive* gyda theisenni brau’n agos iawn yn yr ail safle. Does ryfedd felly bod derbyn bocs o fisgedi fel anrheg Dolig mor dderbyniol!

Yr ail hoff fisged yw’r un mwyaf Nadoligaidd – y teisennau brau. Er mai ‘teisen’ i ni ydy cacen, bydd ‘*shortbread*’ o hyd yn cael ei alw’n deisen frau – efallai am ei fod yn toddi yn eich ceg fel cacen! Cysylltir y rhain yn bennaf gyda’r Nadolig a *Hogmanay* yn yr Alban. Y rysâit arferol ydi siwgr gwyn (1 rhan), menyn (2 ran) a blawd gwenith plaen (3 neu 4 rhan), ond heb y cynhwysion burum neu bowdwr codi. Er bod rhai’n haeru fod y deisen frau yn dod o’r Alban yn wreiddiol, honnir gan eraill mai bisgedi Aberffraw, Ynys Môn (cacennau Aberffraw/Cacen Berffro) yw’r rysâit hynaf ym Mhrydain, yn dyddio’n ôl i’r 13eg ganrif. Siâp cragen fawr, fylchog ydy’r fisged â siâp cefn crychiog. Yn ôl un chwedl, dywedir bod Llywelyn Fawr, Tywysog Cymru oedd yn byw ac yn cynnal ei Lys yn Aberffraw, yn cerdded ar y traeth gyda’i wraig pan ddarganfyddodd hi gragen fylchog hyfryd. Gofynnodd i’r pen pobydd yn y Llys i wneud



cacen frau gyda’r un siâp â’r gragen fawr honno.

Efallai mai’r gwir reswm, mwy credadwy, oedd honno’n ymwneud â’r bererindod enwog i *Santiago de Compostela*. Dechreuwyd y bererindod i Eglwys Sant Iago yn Galisia, gogledd orllewin Sbaen tua’r 8fed Ganrif gyda’r

pererinion yn gwisgo bath-odynnau yn eu hetiau ar siâp cragen fylchog – roedd y rhain ar gael yn eu miloedd ar draethau Galisia, a gallai’r pererin yn hawdd wthio bisgeden ar gyfer y daith, i’r gragen fylchog wag.

Dyna’r rheswm, mae’n siŵr, dros fisgedi Aberffraw weithiau’n cael eu galw’n Gacennau Iago. Dan nawdd y Brenin Gruffudd ap Cynan (1075–1137) neu ei fab a’i olynwr, Owain Gwynedd (1137–70), adeiladwyd eglwys mewn carreg yn Aberffraw ar ddull Romanésg a edrychai’n debyg i eglwysi ar lwybr pererindod i *Santiago de Compostela*. Yr adeilad yma yw’r linc efallai rhwng cregyn bylchog pererinion Sant Iago a’r pentref bychan hwn yng Nghymru, Aberffraw.

Felly’r arferiad oedd ffurfio peli bach crwn o’r toes, a’u gwasgu ar gragen fylchog fawr. Gelwid hi mewn rhai ardaloedd yn Gacen Iago ond teisen Aberffraw ym Môn!

Atgyfodwyd y syniad o greu’r bisgedi hyn gan gwmni ‘*Bisgedi Aberffraw*’ yn 2013. Yn 2017 lansiodd amrediad newydd o’r fisged draddodiadol, a ffurfiwyd y cwmni newydd, *Shepherd’s Biscuits*. Mae digon o amrywiaeth ar gael – y fisged draddodiadol, un blas lemon (neis iawn), un blas siocled, ac, os ydych chi am fentro, mae’na un blas bara brith!!

Felly os ydych chi’n chwilio am anrheg Nadolig gwahanol eleni, beth am roi bocs o deisennau brau traddodiadol neu gyda blas arbennig? Neu, ewch ati yn y gegin adre – maen nhw’n siŵr o fynd lawr y lôn goch!

*Iestyn ac Ann Jones Evans*



# Rysáit

Teisennau Brau syml ar gyfer y Nadolig  
Cynhwysion  
250g menynd wedi ei feddalu  
1 pinsiad halen  
130g siwgr caster  
2 felynwy  
1 coden fanila, (crafu'r hadau)  
300g blawd plaen

Dull

1. Rhowch y menynd, halen, siwgr, melynwy a'r hadau fanila mewn powlen fawr. Adio'r holl flawd a thylinio'n gyflym, nes cael pêl o does. Ei lapio mewn *clingfilm* a'i roi yn yr oergell am o leiaf awr.
2. Rhowch y ffwrn ymlaen llaw ar 180 °C/ Nwy 4. Irwch hambwrdd pobi'n ysgafn neu ei leinio â phapur pobi.
3. Rholiwch y toes i ddyfnder 5mm gyda rholbren. Torrwch y bisgedi i siapiau gwahanol gyda thorrwr bisgedi.
4. Pobwch ar yr hambwrdd pobi am tua 10 munud, gadewch iddyn nhw oeri. Mwynhewch!

*Iestyn ac Ann Jones Evans*



4 Kinmel Terrace, Llandyrnog

*Locally bred and home-killed meat*

Hours of business:

Monday — closed

Tuesday–Friday 8am–5:30pm

Saturday 8am–2pm

*Deliveries daily throughout the area*

# Ysgol Bryn Clwyd

Daeth y disgyblion yn eu dillad smotiog/ lliwgar i'r ysgol Ddydd Gwener Tachwedd 19eg i gefnogi Plant mewn Angen a llwyddwyd i godi swm o £50 – gwych.



Mae'r ysgol hefyd wedi bod yn codi arian i adeiladu llwyfan awyr agored yn yr ysgol, er cof am Mrs Lis Morris. Bydd y gwaith adeiladu'n cychwyn yn fuan.

Mae'r Cyngor Ysgol wedi cyfarfod i gwblhau eu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn ysgol. Y peth cyntaf ar y rhestr ydi trefnu taith ysgol breswyl ac adnewyddu'r adnoddau.

Thema'r dosbarth Babanod ydi'r Arctig, ac mae nhw wedi bod yn archwilio gwahanol ddulliau o adeiladu iglŵau, dysgu am yr arlunydd Arctig o Ganada, Ted Harrison – ac ail-greu ei gelf tirwedd Arctig drwy ddefnyddio gwahanol arliwiau oer a chynnes.

Thema'r Disgyblion Iau ydi'r Gofod – buont yn creu model wrth raddfa o'n system solar ni ar y buarth chwarae drwy ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol 'Scratch' i godio rocedi.

Bob wythnos, ryden ni'n astudio darn newydd o gerddoriaeth o'r Planet Suite gan Gustav Holst. Gwnaethom ni ddefnyddio powdrau lliw dŵr ac acrylig i fynegi sut oedden ni'n teimlo wrth wrando ar gerddoriaeth Fenws – negesydd Heddwch.

Ysgol Bryn Clwyd

**MARCHNAD LAWEN!**

**Dydd Iau, 16 Rhagfyr**

**Cyngerdd carolau 5.30pm**

**ar lwyfan coffa newydd Mrs Morris.**

**Stondinau, bwyd a diodydd poeth,**

**sinema awyr agored a Siôn Corn!**

**Cysylltwch â'r ysgol cyn gynted â**

**phosib i sicrhau bwrdd yn y**

**farchnad - £10 y bwrdd.**

**Croeso cynnes i bawb!**



# Tri lle

## Llangrannog



Bydd gan Langrannog le cynnes yn fy nghalon i am byth. Aethom yno fel teulu am y tro cynta' pan o'n i'n 2 flwydd oed, ac fe aethon ni yno bob blwyddyn, ac eithrio un, nes i mi fynd i'r brifysgol. Er ein bod yn byw yn weddol agos at y môr, ac yn mynd yn aml i Borthcawl, roedd rhywbeth arbennig am Langrannog – falle am ei fod yn ymddangos mor anghysbell. O'i gymharu â heddiw, roedd y lleoedd roeddem ni'n aros yn eitha' cyntefig hefyd. Fel llawer cartref yr adeg hynny, doedd gan y tŷ cynta' yr arhoson ni ynddo yn nhop y pentre' ddim toiled yn y tŷ – roedd rhaid mynd dros y ffordd! Doedd dim llawer o draffig yn 1951, ond er hynny, gallai fod braidd yn annifyr weithie. Mi fydden ni'n treulio'r diwrnod ar y traeth pan oedd hi'n braf – bob pnawn bydden ni'n edrych, braidd yn genfigennus, ar blant Gwersyll yr Urdd yn cael cymaint o hwyl. Roedden ni bob amser yn dyheu am fynd i mewn i'r môr atyn nhw, ond roedd Dad yn dweud ein bod ni'n hunanol, gan fod gennym ni drwy'r dydd i nofio, a dim ond amser byr oedd ganddyn nhw. Yn ddistaw bach, dw i'n meddwl ei fod o'n teimlo ychydig yn bryderus y byddai'n colli golwg arnon ni ym mysg y plant i gyd!

Roedd yr ail dŷ lle buon ni'n aros yn edrych dros y traeth, felly roedd ganddon ni fwy o ryddid i grwydro. Roedd y perchennog yn byw yn y tŷ bychan yn sownd i'n tŷ ni, a dim ond o'i hochr hi y gellid cloi'r drws. Mae'n siŵr bod yr hen wraig druan wedi gwario'i hamser i gyd yn clustfeinio wrth y drws, achos, os bydden ni wedi digwydd gadael y golau

'mlaen, byddai picio'n sydyn drwy'r drws i'w ddiffodd! Mae'n dal yn ddirgelwch i mi lle'r oedden ni gyd yn cysgu, ond ro'n ni'n llwyddo! Byddai fy Nain Swydd Efrog gyda ni, a brawd fy Mam yn dod â'i deulu, a dyna 8 ohonom ni yn y tŷ bychan. Ambell dro, byddai chwaer Dad a'r teulu'n dod hefyd (mewn tŷ gwahanol), a bydden nhw'n dod â Mam-gu gyda nhw! Pan oedden ni gyd yn mynd i'r traeth, doedd dim llawer o le i neb arall! Byddai'r ddwy fam-gu'n bictiwr yn eistedd yno yn eu hetiau, cotiau a sane *lisle*, dim ots pa mor boeth oedd y tywydd! Ro'n ni arfer mynd lawr i brynu mecryll yn syth o'r cwch a dysgodd Ewythr Tom i mi sut i dynnu'r esgyrn.

Pan o'n i'n hŷn, byddwn i'n meddwl 'mod i'n ddewr iawn yn mynd allan i gael golwg ar y potiau cimychiaid. Cynhelid dawnsfeydd yn aml ar y Sadyrnau yn neuadd y pentre', a dwi'n cofio, ar ddiwedd y noson, byddai rhywun yn gweiddi 'Pwy sy am fynd i nofio?' a byddai pawb yn rhuthro adre am y gwisgoedd nofio i fynd i'r môr (dim sôn am lechyd a Diogelwch!). Dyddiau hapus mewn oes fwy diniwed!

## Ynys Mull



Haf 1977 oedd hi, a Richard y gŵr a minnau adre am seibiant o'r gwaith yn Nigeria; dyma ni a David, brawd Richard yn penderfynu llogi cwch a hwylio ar y môr ar arfordir gorllewin yr Alban. Yn aml, byddai David a minnau'n mwimian ar flaen y llong tra bod *Capten Bligh* yn rhoi'r gorchmynion o'r starn! Un noson, dyma fi'n mynd i'r bync, a gadael i'r bechgyn lywio'r cwch, gan ein bod ni'n hwylio drwy'r nos. Tua 6 y bore mi ddeffrais, a rhoi fy mhen



allan o'r hatsh i weld golygfa fendigedig o Tobermory yn haul disglair y bore. Roedd y tai o liwiau llachar yn edrych fel rhywbeth allan o lyfr stori (ac yn ddiweddarach, mi ddaeth yn llyfr stori o'r enw *Balamory!*).

Mi hwylion ni reit o amgylch arfordir Ynys Mull, ac aros mewn sawl harbwr bychan, gan flasu pob glasied o wisgis brag a gynigiwyd i ni! Mewn un tafarn, mi ddaethon ni ar draws gŵr bonheddig oedd wedi bod yn gweithio yn Nigeria yn y 1930au, a chawson ni sgwrs ddifyr iawn. Roedd yn synnu ein bod ni wedi arfer mynd i'r Clwb Ffrengig yn Kano, achos yn ei amser o, dim ond '*math arbennig*' o ferched oedd yn mynychu'r lle, a byddai o wedi cael ei daflu allan pe bai wedi ei ganfod yno!

Dyna oedd f'ymweliad cynta' ag Ynys Mull, ond nid yr ola'. Ychydig flynyddoedd yn ddiweddarach, es i a'm ffrind i aros yn ne'r Ynys ac roedden ni'n hoffi'r lle gymaint, bydden ni'n dychwelyd bob blwyddyn. Ambell dro, bydden ni'n aros mewn lle o'r enw Red Bay, sy'n edrych drosodd at Ynys Iona. Weithiau, gallem weld dyfrgwn yn chwarae mewn cilfach o dan y tŷ. Roedd dal fferi i Iona a cherdded ar y tywod gwyn yn brofiad unigryw.


Gelwir Iona yn 'Grud Cristnogaeth', ac mae ganddi ryw deimlad o dawelwch adferol; mae'n fyd arall, ac mae diwrnod ar yr ynys yn lleddfu'r ysbryd. Ar Mull ac Iona, mae bywyd yn fwy hamddenol, ac mae amser gan bobl i aros a siarad. Dros y blynyddoedd, rydyn ni wedi gwneud ffrindiau gyda rhai pobl hynod. Bob blwyddyn, bydden ni'n ymweld â lleoedd newydd, ond bob amser yn cael ein tynnu'n ôl at yr hoff lefydd – Iona, Loch Ba, Tobermory ac Ystafell De Argyll am hagnosis a tships!

### **Menorca**

Mi es i Menorca am y tro cynta' drwy ddamwain, bron! Roeddwn i wedi bwcio gwyliau yng ngwlad Groeg ond, rai wythnosau cyn gadael, canslodd y cwmni'r gwyliau gan nad oedd digon o ddiddordeb. Es drwy'r pamffledi eto a dod o hyd i westy bach ym Menorca. Wrth gyrraedd y gwesty gyda thacsi o'r maes awyr, fe'm syfrdanwyd pan ddaeth

perchennog i'm cyfarfod a dweud '*You must be Mrs Steel. Welcome to the hotel*' a chusanu fy llaw! Mae'r *Hotel del Almirante*, wedi ei enwi ar ôl y Llyngesydd Collingwood, fu'n aros yno pan oedd yn rheoli'r llynges yn y Canoldir, wedi Trafalgar.

Ar ynys Isla del Rey, yng nghanol harbwr Mahon, saif yr ysbyty milwrol Prydeinig hynaf yn y byd, ac mae tîm brwdfrydig o wirfoddolwyr wedi dechrau ar y gwaith o'i adfer. Mewn cwpwrdd gartre, mae gen i lun o f'ewythr Tom a chit diheintio syrinj gafodd o wrth ymuno â Chorfflu Meddygol Brenhinol y fyddin yn ystod yr 2il Ryfel Byd. Feddyliais i y byddai Yncl Tom wrth ei fodd yn gwybod mod i wedi rhoi cartref teilwng i'r cit.



Ar fore Sul yn yr Eglwys Anglicanaidd, sylwais ar wraig oedd yn edrych yn debyg iawn i Dolly Martin (cyd-weithiwr gynt). A dyna pwy oedd hi! Roedd hi a'i gŵr Mike wedi ymddeol ac yn byw mewn tŷ hyfryd yng nghanol gwarchodfa natur ym Menorca. Cawsom ddiwrnodau difyr yn galifantio o gwmpas yr ynys a mwynhau sawl cinio hamddenol yng ngwynt y môr.

Mi fues i'n mynd i Menorca am tua chwarter canrif, ac mae'n siwr nad af i ddim yn ôl yno bellach, ond mae gen i storfa o atgofion am Menorca a'r ddau le arall. Byddaf yn meddwl yn aml am ddarn o gerdd gan R.S. Thomas '*Let the mind take its photograph Of the bright scene, something to wear Against the heart in the long cold.*'

Rydw i'n teimlo fy hun yn lwcus fod gen i ddigonedd i wisgo o gwmpas fy nghalon!

Mary Steel

# Y Tuesday Club

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Clwb ym mis Hydref i benderfynu'r ffordd ymlaen. Gan fod Gwilym a Glenys yn rhoi fyny rhedeg y Clwb, ar ôl 16 mlynedd, gofynnwyd i'r aelodau am eu sylwadau ar y sefyllfa. Daethant i benderfyniad eu bod eisiau parhau gyda'r Clwb. Rhoddwyd enw ymlaen i gymryd drosodd ac yn hollol unfryd, penderfynwyd gofyn i Anwen Davies. Balch iawn yw cael dweud ei bod wedi cytuno.

Pasiwyd cydymdeimlad â theulu'r diweddar Les Ward a oedd yn aelod ffyddlon; ag Eva ar ôl iddi golli ei gŵr, Oswyn, ac â Sylvia oedd wedi colli ei chwaer yng nghyfraith.

Roedd y Clwb, ynghyd â mudiadau eraill yn y pentref, wedi derbyn siec gan y Cyngor Cymuned yn ddiweddar i helpu gydag ail-gychwyn yn dilyn y feirws. Dymuniad yr aelodau oedd cael cinio yn ystod mis Tachwedd yn hytrach nag yn nes at y Nadolig.

Diolchwyd yn gynnes iawn i Gwilym a Glenys am eu gwaith ar hyd y blynyddoedd a chyflwynodd Buddug flodau iddynt ar ran yr aelodau.

Ar Dachwedd 18fed, mwynhawyd pryd hyfryd mewn cwmni difyr ym mwyty y Cherry Pie. Cafwyd cyfle i gymdeithasu a chrosawu Anwen atom. Bwriedir ail-gychwyn cyfarfod-ydd y Clwb ym mis Mawrth.

Dymuna Gwilym a Glenys ddiolch o galon i bawb am eu cefnogaeth a'u caredigrwydd tuag at y Clwb ac am y blodau hyfryd.



Roedd cyfarfod mis Tachwedd Llan Llanast yn brysur a swnllyd dros ben gyda 19 o blant yn cael hwyl fawr. Gan ei bod yn Sul y Cofio, gwnaethom ni feddwl pam fod pobl yn gwisgo pabïau, a gwnaethom ni felinau gwynt pabïau a lampau pabïau. Cafodd pob plentyn gacen pabi i fynd adre. Gwnaethom ni hefyd feddwl am yr Adfent, a sut rydan ni'n paratoi am y Nadolig a geni Iesu. Gwnaethom ni dorchau Adfent allan o gardbord, a chanhwyllau'n cynnwys y geiriau, Cariad, Llawenydd, Heddwch a Gobaith, gyda channwyll yn y canol ar gyfer Iesu.



Cwblhaom ni'r daflen weithgaredd Adfent, a gwnaeth pawb helpu gwneud kannwyll Adfent anferth, fydd yn cael ei gosod yn yr Eglwys er mwyn i bawb ei gweld. Dyma Lan Llanast ola'r Parch. Val cyn ei bod yn ymddeol, a diolchodd pawb iddi am bopeth mae wedi gwneud a'r hwyl gawsom ni gyda hi ar hyd yr amser. Cyflwynodd y plant flodau, cacennau, pethau da a cherdyn Diolch iddi. Byddwn ni'n colli'r Parch. Val yn fawr iawn, ond yn gobeithio ei gweld unwaith eto pan fydd yn dychwelyd gyda'i hwyron. Bydd ein Llan Llanast nesa' Ddydd Sul 12 Rhagfyr am 3.30pm yn y Neuadd, a gobeithio gweld pawb unwaith eto.

Mary Steel

## Sam's Tale

The Story of a Rescue Dog



I brynu copi o'r llyfr, *Sam's Tale*, cysylltwch â Sylvia Evans, Fforddilas: syl.evans@sky.com neu anfonwch neges drwy Facebook. Mae ar werth am £8.99 yr un a £2.50 o gost postio llyfr neu ewch i'w nôl. Bydd £1 am bob llyfr a werthir yn mynd at Ganolfan Achub Anifeiliaid Gogledd Clwyd.



# Gair gan y Rheithor

Mae Sul ola' Tachwedd yn dynodi cychwyn tymor yr Adfent, ac ystyr y gair Adfent ydi 'dyfodiad'. Yr Adfent ydi'r adeg pan fyddwn yn cychwyn agor Calendrau Adfent wrth ein bod ni'n edrych ymlaen ddyfodiad yr Iesu y Nadolig. Sul Adfent ydi cychwyn blwyddyn yr Eglwys hefyd. Mae cychwyn unrhyw flwyddyn newydd yn gwneud ni i feddwl am bopeth sy wedi digwydd yn ystod yr hen flwyddyn ac edrych ymlaen at beth sydd yn ein haros yn y flwyddyn newydd.

Bydd Rhagfyr eleni'n dod â chychwyn newydd i'n teulu a bywyd ein Heglwys wrth i mi gychwyn ar fy ymddeoliad. Mae offeiriad yn mynd a dod, a gobeithio y cofir am y mwyafrif gydag anwyldeb, ond yn y pen draw, bydd eraill yn dod yn eu lle, gyda phobl yn dod i'w hadnabod a'u cefnogi dros y blynyddoedd. Mae'r patrwm o un Eglwys un offeiriad wedi gorfod newid, a gyda hynny'n ein gorfodi i edrych ymhellach na'n Heglwys ni ein hunain. Erbyn hyn mae holl Eglwysi ardal Dinbych yn rhan o beth a elwir yn Ardal Genhadu Dinbych, ac rydan ni wedi gwneud ffrindiau a dealltwriaeth newydd oherwydd hyn.

Mae'r pandemig wedi newid nifer o bethau, nid y lleia' ydi bod mwyafrif ohonom ni wedi dod i arfer â Zoom. Rydym ni wedi dysgu buddion Zoom naill ai drwy theulu neu drwy ein gwaith. Ond nid ydi hyn yn golygu bod y rheini sydd heb gyfrifiadur wedi colli allan, gan ein bod ni wedi cadw mewn cyswllt, ac erbyn hyn yn medru cwrdd â'n gilydd. Mae rhai cyfyngiadau'n para o hyd – rhaid gwisgo

mygydau a chadw rhywfaint o bellter cymdeithasol yn yr Eglwys, ond mae hyn wedi gweithio'n dda i'n cadw ni'n ddiogel.

Y flwyddyn hon rydym ni'n edrych ymlaen gyda llawenydd i dreulio amser gyda'r teulu a ffrindiau wrth i ni ddathlu geni'r Iesu ym Methlehem. Bydd gwasanaethau'r Eglwys yn parhau, gyda gwasanaethau arbennig wedi eu cynllunio ar gyfer y Nadolig. Mae manylion ein gwasanaethau isod, ac rydym ni'n estyn croeso cynnes i chi gyd.

Falle fod fy amser yn Llandyrnog wedi dod i ben, ond mae wedi bod yn fraint a llawenydd bod yn offeiriad yma. Diolch i chi am eich cyfeillgarwch a chefnogaeth.

Boed i lawenydd a heddwch y baban Iesu fod gyda chi y Nadolig hwn a'r flwyddyn newydd.

Gyda phob bendith  
*Val Rowlands*

## Oedfaon yr Eglwys

### St Tyrnog

**5 Rhagfyr:** 11.15 Cymun Bendigaid

**12 Rhagfyr:** 11.15 Boreol weddi

**19 Rhagfyr:** 11.15 Addoliad boreol

**Noswyl Nadolig:** 17.00 Gwasanaeth y preseb

a'r Cristingl: gwasanaeth i'r holl deulu

**Dydd Nadolig:** 10.00 Cymun Bendigaid,

yr Hybarch Bernard Thomas

### Llangwyfan

**5 Rhagfyr:** 11.15 Boreol weddi

### Llan Llanast

**12 Rhagfyr:** 15.30–17.30 yn neuadd y pentre.

12 diwrnod y Nadolig – 12 peth i'w gwneud a'u bwyta! I'r holl deulu, croeso cynnes i bawb.

Rhaid i blant ddod ag oedolyn gyda nhw.

### Costau hurio Neuadd y Pentre

O hyn tan ddiwedd mis Mawrth 2022, bydd y neuadd a'r gegin ar gael i'w llogi am £28 am ddwy awr. Dim ond i bobl sy'n byw yn y gymuned ac sy'n dymuno trefnu bore coffi i godi arian at elusennau cydnabyddedig y mae'r swm yma'n berthnasol. Bydd disgwyl i'r trefnwyr osod y byrddau a'r cadeiriau, a'u cadw wedyn.

**James Davies, A.S. Dyffryn Clwyd**

james.davies.mp@parliament.uk

Swyddfa'r etholaeth: 01745 888920

Swyddfa Westminster: 0207 2194606

# Cornel Cŵl y plant

The moon  
The moon has a face like a big round  
plate,  
She shines on the cat  
by the garden gate,  
On cows that are  
heading for the  
warm, dry barn,  
And on the farmer  
who's asleep in bed on the farm.



The fast asleep dog and the wide-  
awake cat,  
The mouse by the door that's wearing  
a hat,  
The fox that's awake by late  
afternoon,  
But never fear it's just the moon.

As curtains and children close their  
eyes,  
Until the sun shall again arise,  
For now the moon is far away gone,  
Until another day is done.

Megan Jones,  
Llys Aled (9 oed)



Professional and personal  
Foot Care in the comfort  
and privacy of your own  
home.

Treatments Include:

- ✂ Corn/Callus Removal
- ✂ Diabetic Foot Care
- ✂ Nail Trimming
- ✂ Thickened Nails
- ✂ Athlete's Foot
- ✂ Fungal Nails
- ✂ Cracked Heels
- ✂ Ingrown Toe Nails
- ✂ Verrucae
- ✂ Foot Care Advice



**Initial Assessment FREE**

**01824 735070**

**07387 583971**

[dyffrynfootcare@gmail.com](mailto:dyffrynfootcare@gmail.com)

<http://dyffrynfootcare.com>

Dyffrynfootcare  
 @dyffrynfootcare

Rysáit Mins Peis Cadi  
6 owns o flawd codi  
6 owns o flawd plaen  
Llwy fwrdd o siwgr mân  
Pinsied o halen  
4 owns o lard  
2 owns o fenyn  
Tua 90ml o ddŵr oer  
Jar o friwffrwyth

1. Yn gyntaf rhowch y blawd a'r siwgr  
a'r halen mewn prosesydd bwyd a'i  
roi arnodd i gymysgu.
2. Yna torruch ac adiwch y lard a'r  
menyn iddo a'i brosesu nes bod yn  
edrych fel briwsion mân.
3. Yn araf adiwch ddŵr oer nes ei fod  
yn dod at ei gilydd ond ddim yn rhy  
wlyb.
4. Rhowch y toes ar fwrdd wedi ei  
orchuddio efo ychydig o flawd.  
Rholiwch y toes, a torruch y  
cylchoedd allan.
5. Rhowch y cylchoedd mewn hambwrdd  
coginio a'u llenwi gyda'r briwffrwyth.  
Rhowch gylchoedd toes llai ar eu  
pen.
6. Coginiwch y mins peis yn y popty ar  
180 °C am 15 munud, neu nes eu bod  
yn dechrau mynd yn euraidd. Ar ôl eu  
tynnu allan, taenwch siwgr mân  
drostynt.

Mwynhwech y mins peis yn gynnes!

Cadi Jones,  
Llys Aled (9 oed)

## Capel y Dyffryn

Llongyfarchiadau calonnog i Gwenan, Pen y  
Bryn ar ennill y gystadleuaeth cân allan o sioe  
gerdd yn Eisteddfod Genedlaethol y Clybiau  
Ffermwyr Ifanc.

Llongyfarchiadau hefyd i Lowri Smith sydd  
wedi'i hethol yn Llywodraethwr Ysbyty Alder  
Hey, yn cynrychioli cyhoedd Gogledd Cymru.

**Oedfaon mis Rhagfyr**

- |                   |                               |
|-------------------|-------------------------------|
| <b>5 Rhagfyr</b>  | 11.00 Parch. Andras Iago      |
| <b>12 Rhagfyr</b> | 9.45 Gwasanaeth carol a llith |
| <b>19 Rhagfyr</b> | 9.45 Gwasanaeth y Nadolig     |
| <b>26 Rhagfyr</b> | 9.30 Gwasanaeth ar Zoom       |



## Printiau Elysteg

**Elysteg** – busnes bach Mari Williams, Maes Tyrnog.

‘Dechreuais **Elysteg** ychydig dros flwyddyn yn ôl yn ystod y cyfnod clo. Dwi wedi mwynhau arlunio ers i mi fod yn hogan fach a dwi wrth fy modd yn rhedeg yn y bryniau a’r mynyddoedd. Felly penderfynais gyfuno fy ddau hoff hobi i greu fy lluniau digidol.

I greu’r lluniau rwy’n defnyddio’r rhaglen *Affinity Design* ar bad graffeg. Fy mhrint cyntaf oedd o Foel Arthur, gan hwn yw’r bryn rwy’n gweld o ffenest fy nhŷ. Y cam nesaf oedd agor siop ddigidol ar wefan Etsy a hysbysebu’r printiau ar wefannau cymdeithasol.



Ers creu print Moel Arthur, dwi di creu printiau o nifer o fryniau eraill gan gynnwys Moel Famau, Penycloddiau a Moel Fenlli. Dwi hefyd wedi creu printiau o Gastell Dinbych, yr Wyddfa a llynnau Alwen, Brenig a Thegid. Rwy’n hapus i dderbyn comisiynau i greu printiau unigol.

Yn ogystal â fy siop Etsy, mae fy mhrintiau ar gael yn nifer o siopau lleol gan gynnwys Siop Clwyd yn Ninbych, Siop Elfair yn Rhuthun a Siop Mati a Meg yn yr Wyddgrug, a’r siop ym Maes Carafanau Llanbenwch.’

Mae’n bosib ichi weld gwaith Mari a chysylltu â hii drwy ddilyn y dolennau isod:

Siop Etsy: [www.etsy.com/uk/shop/Elysteg](http://www.etsy.com/uk/shop/Elysteg)

Instagram: [www.instagram.com/elysteg](http://www.instagram.com/elysteg)

Facebook: [www.facebook.com/elysteg-103126461879107](http://www.facebook.com/elysteg-103126461879107)

Ebost: [Elysteg@gmail.com](mailto:Elysteg@gmail.com)

## Criafolen ‘Pry Cop’ Penycloddiau



Digwydd sylwi wnaeth y diweddar Thomas Iloff Simey, Cilcain, ar y griafolen odidog hon wrth grwydro Penycloddiau. Enwodd hi’n ‘*Spider Rowan*’, ac aeth â llawer o’i ffrindiau ac ymwelwyr i Glawdd Offa yn un swydd i ddotio ar wytnwch y goeden arbennig yma, yn tyfu’n hen mewn amgylchedd mor anghyfeillgar.

Mae coed criafol (*sorbus aucuparia*) yn rhywogaeth nodweddiadol o ucheldir Cymru, ond yn anaml iawn maen nhw’n byw wedi’r 100 oed, gan eu bod ar drugaredd y gwynt, a’r eira a’r defaid pori. Cymharwch hyn â’r hen griafolen hon – mae hi wedi goroesi, yn ôl pob tebyg, am bron i 200 mlynedd!

Mae’n cael ei galw’n goeden ‘Pry Cop’ oherwydd wrth i chi ddod i fyny ati o ochr ddwyreiniol Penycloddiau, mi welwch chi’r canghennau anferth hyn ar led fel coesau hen bry copyn mawr dros yr ochr allanol y fryngaer. Mae cylchedd ei choron yn mesur 61 metr ac mae hi’n wirioneddol drawiadol. Eleni, enillodd gystadleuaeth ‘Coed Hynod Clawdd Offa’ i ddathlu’r 50 mlynedd ers sefydlu’r Llwybr Cenedlaethol. Roedd y gystadleuaeth yn cydnabod y coed rhyfeddol sydd i’w cael ar y llwybr. Mae’r griafolen ‘Pry Cop’ erbyn hyn yn cael ei gwarchod fel rhan o’r Prosiect Dalgylch Afonydd gan Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru sy’n casglu hadau ar gyfer eu meithrinfa coed ym Maeshafn. Mae’r gwaith hefyd ar y gweill i drafod gosod ffens warchod o gwmpas y goeden i’w diogelu.

Jonathan Hulson

(*Rheolwr Prosiect Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru*)

# Thomas Ramsbottom MSc

Mi ges i fy ngeni yn Ysbyty H M Stanley yn 1980 ac mi es i i Ysgol Gellifor ac ymlaen i Ysgol Brynhyfryd. Gadawes i'r ysgol yn 16 oed a threulio'r pedair blynedd nesaf yng Ngholeg Llandrillo a chwblhau *GNVQ Uwch* a *HND* mewn Technoleg Gwybodaeth. Yna ymlaen i wneud sawl swydd, yn cynnwys gweithio'n yr Hufenfa - handi iawn a minne'n byw'r ochr arall i'r ffactri laeth!

Dw i wedi byw yn Llandyrnog ers 36 o flynyddoedd, a 5 mlynedd arall rhwng Seland Newydd, Prestatyn a Dulyn. Ar hyn o bryd dw i'n gweithio fel contractwr tirwedd gyda 'nhad, ac yn teimlo hi'n ffrainc cael gweithio y tu allan yn y rhan fwyaf prydfferth o'r byd i gyd!

Mae gen i sawl hobi, yn cynnwys crefftau hynafol, ac mi ddysgais sgiliau turnio, cerfio llwyau, gwehyddu tabled a gwau yn ôl ffordd pobl Sgandinafia a Llychlyn – gydag un weillen a darnau byr o wllân (*nalbinding*) i wneud hetiau a menig. Arweiniodd hyn fi at fynd yn ôl i fyd addysg, ac yn 2020 mi wnes i gwblhau gradd Meistr y Gwyddorau mewn Diwylliant Archeoleg a Deunydd Arbrolfol ym Mhrifysgol Dulyn. Roedd y cwrs yn anhygoel ac mi ges i lawer o brofiadau newydd a gwneud ffrindiau a chysylltiadau newydd, pob un â'i bwnc arbenigol o fewn y gymuned archeolegol ehangach.

## ***Pam mae archeoleg arbrolfol mor bwysig?***

Mae mwy o bwyslais y dyddiau hyn ar gynaliadwyedd a defnyddio cynnyrch naturiol. Mae'n bwysig profi a darganfod sut oedd ein hynafiaid yn defnyddio deunydd crai fel planhigion, pren a gwllân a sut y gall y sgiliau a'r deunyddiau hynny gael eu defnyddio yn yr oes fodern i wneud cynnyrch cynaliadwy a bod o fudd i'n planed.

Daeth Covid i daro ar fy astudiaethau ar ddechrau 3ydd tymor y cwrs, felly mi gollais i'r prif elfen ymarferol o greu broetsh fylchgrwn Oes yr Haearn, tebyg i'r un a gafodd ei ddarganfod yn Dooey, Sir Donegal. Roedd rhaid defnyddio'r holl ddeunyddiau crai a'r dulliau gweithio arbrolfol er mwyn creu'r froetsh

orffenedig. Ond canslwyd y gwaith ymarferol a throsglwyddwyd y gwaith i wersi ar-lein trwy Zâm - rhywbeth sy'n gyfarwydd iawn erbyn hyn! Gan fy mod wedi colli'r elfennau ymarferol, mynychais weithdai pwrpasol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac erbyn hyn rydw i wedi castio cleddyf Oes Efydd, dysgu defnyddio cogail nyddu gwllân canoloesol a gwneud nifer o bennau picelli socedog Oes yr Haearn. Rydw i'n parhau gyda'r gweithdai er mwyn gwella ar nifer o sgiliau crefft hynafol. Y flwyddyn nesa bydda' i'n dysgu gwehyddu tabled mewn canolfan addysgu archeolegol – rhywbeth rydw i'n edrych ymlaen ato'n fawr iawn!

*Diolch yn fawr Tom, a phob hwyl gyda'r dysgu!*



*Par o fenig a het wedi'u gwau a thechneg 'nalbinding' â gwllân pur*



*Gwŷdd top-bwrdd wnes i*



# Neges Nadolig ein Cynghorydd Sir

Mae mis Rhagfyr 2021 wedi cyrraedd yn llawer cynt na feddylies i – dwi'n siŵr ei fod yn dod yn gynt fel rydw i'n heneiddio! Rydw i'n teipio hwn cyn mynd i Abu Dhabi i weld Jacob a'r teulu cyn y Dolig. Hoffwn i ddiolch i breswylwyr Llandyrnog a Llangwyfan am bopeth maen nhw'n ei wneud i'r gymuned – mae pawb mor hael efo'u hamser, eu harian a'u gofal am eu cymdogion.

Cynhaliwyd bore coffi yn y pafiliwn a chwis yn y Golden Lion yn Nhachwedd i godi arian at gael diffibriliwr arall yn y pentre' – ar wal pafiliwn Cae Nant. Cododd y ddau ddigwyddiad £900. Llwyddodd bore coffi yn y Neuadd i gofio am Olwen Roberts godi £950 tuag at elusennau o ddewis y teuluoedd. Byddwch yn falch ohonoch eich hunain am helpu a chefnogi.

Mi gawsom ni Sul y Cofio teimladwy wrth y gofeb ar y 14eg, efo Heather Powell, ein biwglwr arbennig ni, a braf oedd gweld y *Brownies* yno. Dyma fydd gwasanaeth cofio ola'r Parch. Val gyda ni cyn ymddeol. Rydw i'n dymuno ymddeoliad hir a hapus iddi.

Rydw i'n trio trefnu astudiaeth dichonoldeb ar gyfer y pentre' fydd yn rhoi cyfle i bawb gael dweud be hoffen nhw ei weld yn y pentre'. Mae gennym ni dri adeilad cymunedol – Pafiliwn Chwaraeon, yr Ystafelloedd Coco a Neuadd y Pentre', yn ogystal â chyfleusterau Cae Nant. Os bydd hyn yn digwydd, byddwn ni'n cysylltu â phob cartref am eu barn. Os gwelwch yn dda, a wnewch chi ymateb i'r astudiaeth pan ddaw hi, gan mai dyma fydd yn ein helpu i lunio cyfleusterau yn ein pentre'? Os oes gennych chi farn bendant, cysylltwch â fi'n uniongyrchol.

Mae 'na ddau ddatblygiad tai yn Llandyrnog yn debygol o gychwyn yn 2022 a bydd swm sylweddol o arian yn dod gan y datblygwyr tuag at ddatblygu cyfleusterau yn y pentre'. Bydd gwybod am beth ydi anghenion y preswylwyr, o'r ieuengaf i'r hynaf, yn ddefnyddiol iawn.

Dwi'n meddwl ein bod fel pentre' wedi ymdopi'n dda iawn â phandemig Cofid-19, ond mae'n dal yn ein mysg, a rhaid para i gymryd pob gofal. Mae pigiadau atgyfnerthu yn cael eu cynnig erbyn hyn, felly gobeithio y byddwn i gyd, os ydym yn dymuno, yn derbyn amddiffyniad ychwanegol.

Dw i'n gobeithio y byddwn yn gweld y biniau halen melyn yn dod 'nôl yn fuan ar gyfer y tywydd gaeafol.

Hoffwn ar ran Hilary, fy holl deulu a minnau ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd. Os ydech chi'n teimlo y medra i fod o help i chi neu eich teulu mewn unrhyw ffordd, neu os ydech am dynnu fy sylw at rywbeth yn uniongyrchol, mae fy manylion isod.

*Merfyn Parry*

## Cyngor Sir Ddinbych

### Merfyn Parry

Manylion cyswllt:

Ffôn : 07836 208446

E-bost: [merfyn.parry@denbighshire.gov.uk](mailto:merfyn.parry@denbighshire.gov.uk)

Neu gadewch neges ar Facebook



## Prompt Travel

**Taxi & Private Hire**

**4, 8 & 16-seat vehicles  
24 hrs 7 days a week**

 Incorporating Vale Private Hire

**01824 790485**

**07974 862027**

**Teithiau Prydlon**



**Tacsi a Hurio Preifat**

# Nodiadau o Blas Ashpool

Am fore disglair bore 'ma – y rhew cyntaf wedi cyrraedd a'r awyr mor glir. Mae'r gaeaf ar ei ffordd o'r diwedd, ac mi rydw i'n teimlo'n reit ddiolchgar am hynny. Er bod y tywydd braf diweddar 'ma wedi bod yn dderbyniol, mi roedd hi fel petai'r ardd yn gweiddi 'mae hi'n hwyr glas i ni gael tywydd oerach – dw i wedi blino'n lân ar ddal a dal i fynd.' Bydd y blodeuo ar stop bellach a bydd holl ddail lliwgar yr hydref yn disgyn yn urddasol – mi gaiff yr ardd orffwys haeddiannol.

Dyma ddywediad Saesneg ddois i ar ei draws yng ngwaelod rhyw ddrôr, sy'n cyfleu i'r dim yr adeg hon o'r flwyddyn:

*When skies are grey and flowers fade,  
Fall and wither to the ground.  
Know in your heart that  
This is only the changing of a season.*

Er bod bywyd yr ardd yn tawelu, alla i ddim dweud yr un peth am fywyd dan do ym Mhlas Ashpool. Daeth cath fach newydd i'n tŷ ni yn un belen gron, ddu a gwyn, a does dim llawer o heddwch i'w gael! (dim ond pan fydd hi wedi dod o hyd i gornel fach glyd i gysgu a chael ei gwynt ati'n barod at ei chastie nesa!)

Mi ddaeth 'ychydig o wythnosau'n ôl, ac mae hi'n feistres ar y cathod a ninnau i gyd. Am un mor fach, mae'n dangos ei phersonoliaeth yn barod. Mi fydd hi wrthi am oriau ar ei chwrcwd o flaen y ffenest, ei chynffon yn ysgwyd, a'i llygaid a'i chlustiau'n effro i unrhyw beth allai fod yn ysglyfaeth iddi. Mae'n gwylio'r dail yn disgyn, y robin goch, y pryfed cop wrthi'n gweu eu gwe, a hyd yn oed yr hen Burt y ceiliog (sydd, gyda llaw, yn dal i obeithio am gartref newydd os digwydd i rywun gynnig!).

Yr unig dro mae hi'n dangos unrhyw arwydd o flinder ydi pan ddaw'r wyrion draw am y diwrnod. Yn ei hwythnos gynta' yma, cafodd ei gwisgo mewn dillad dolis a'i pharedio yn eu pram; ei rhoi ar fwrdd

llawdriniaeth yr ysbyty; heb sôn am gael glanhau ei dannedd gan Freddie a dawnsio yn ffeinal 'Strictly Come Dancing' gyda'i phartner, Miss Bea a'i dillad crand. Mae'n diodde'r cwbl yn ddi-gŵyn ac yn falch o gael syrthio i gysgu'n sownd ar lin unrhyw un sy'n cynnig!

Dw i'n dal heb orffen plannu rhai bylbiau a rhosod — falle mai dyma'r diwrnod i orffen y jobsys sy' wedi eu hesgeuluso am wythnos neu ddwy. Felly, mae'r garlleg i lawr yn yr ardd lysiau, ond, yn wahanol i rai pobl, fyddai i ddim yn rhoi hadau pys pêr i lawr tan y Gwanwyn. Bydd rhaid torri'r dahlias a'u cuddio â gwellt, gan obeithio y byddan nhw'n goroesi dros y gaeaf. Gobeithio hefyd y bydd y gwenyn yn setlo yn eu cwch ac yn goroesi!

Mae'r bantams *Pekin* wedi cael cartref newydd, i'w cadw'n ddiogel rhag y llwynog, ac mae 'na stôr o goed tân yn barod ar gyfer tanau'r gaea'. Ond dim ond newid tymor ydi o, a daw newid tymor â bendithion newydd. Felly, gobeithio, wrth i ni ddynesu at y 'Dolig, y bydd pawb yn ffeindio rhai newidiadau sy'n dod â hapusrwydd iddyn nhw!

Tan y tro nesa', Nadolig llawen a heddychlon, a mwynhewch y garddio!

*Fiona Bell*

**CARPET SUPPLY**  
**Home Choose Carpets**  
**FREE Estimates**  
**CARPET FITTING**  
**Own Carpets Fitted**  
**Carpet Refitting Service**  
**CARPET CLEANING**  
**Call Andy**  
**07900 907253**  
**wetordrycarpetcleaning.com**



## Y Gymdeithas Hanes

Ar Dachwedd 17, yn Neuadd y Pentref, daeth aelodau a Chyfeillion y Gymdeithas ynghyd i'r cyfarfod cyntaf yn y cawd ers dechrau'r Cofid.

Dechreuwyd gyda Chyfarfod Blynyddol yn trafod y cyllid, datblygiad prosiectau, ethol swyddogion a'r rhaglen ar gyfer 2021-2022. Wedyn croesawodd ein Cadeirydd, yr Hybarch E. Bernard Thomas, ein gŵr gwadd – cyn Ddirprwy Prif Weinidog Cymru, Ieuan Wyn Jones.

Cawsom ddarlith gan Ieuan Wyn Jones ar Thomas Gee, un o fawrion Dinbych. Roedd o'n bregethwr Anghydfurfiol, yn wleidydd, yn newyddiadurwr, yn ymgyrchydd a chyhoeddwr, ac yn ddyn busnes craff.

Un o gyhoeddiadau pwysicaf ddaeth o'i wasg yn Ninbych oedd *Baner Cymru* – cylchgrawn wythnosol bob dydd Sadwrn.

Roedd y *Faner* yn bell iawn o fod yn ddi-dduedd! Roedd o'n ddiedifar o ryddfrydol a radical ac yn hyrwyddo unrhyw ymgyrch oedd gan Thomas Gee ar y gweill. Yr ymgyrch enwocaf oedd gwrthwynebu gorfod talu'r degwm i'r Eglwys. Daeth yr ymgyrch hon i'w phenllanw gyda Rhyfel y Degwm yng Nghymru, a daeth i ben yn swyddogol yn 1891 pan gafwyd Mesur y Degwm.

Bu farw Thomas yn 1898 a daeth miloedd o bobl i'w angladd.

Mae etifeddiaeth Thomas Gee yn para hyd heddiw, gyda'r '*Fedal Gee*' sy'n cael ei chyflwyno i aelodau fu'n ffyddlon yng nghapeli'r MC, gan roi blynyddoedd o wasanaeth i'w hysgolion Sul.



Hywel Davies (ysgrifennydd y Gymdeithas), Ieuan Wyn Jones, a Bernard Thomas

## Sul y Cofio



Daeth Colin Dew-Parry o Gaer a'i fodryb Barbara Hammond o Frychdyn i'r gwasanaeth coffa fore Sul, 14 Tachwedd. Roedden nhw yno i dalu teyrnged a chofio am Martin Luther Williams, hen ewythr Barbara, a gafodd ei ladd yn y Rhyfel Byd 1af ym Mrwydr y Somme, Ffrainc, 10 Gorffennaf 1916 yn 28 oed (tt. 145 – 149, *Y Rhyfel Mawr • Llandyrnog a Llangwyfan 1914-1918 • The Great War*).

## Llun y mis



Y mis yma mae Phil O'Loughlin wedi tyrchu i'w lyfrgell o luniau i roi'r llun hyfryd yma a dynnwyd ychydig dros flwyddyn yn ôl. Mae'r eira'n hardd iawn, ond gobeithio na welwn ni ormod ohono dros y gaeaf!

## Arddangosfa gelf

Bydd ambell ddarlun gan James Eccleston ar werth yn arddangosfa gymysg y Nadolig yn Oriel Ffin y Parc, Llanrwst, 5-19 Rhagfyr. Mae'r arddangosfa hefyd yn cynnwys gwaith gan Sarah Carvell, Dinbych.

# Materion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Cyngor Cymuned

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Butler sydd wedi colli ei thad yn ddiweddar.

Cadarnhaodd Cyngor Sir Ddinbych ar lafar ei fwriad o osod giât newydd ar Lwybr Tyrnog rhwng Yr Hen Reithordy a Groes Efa.

Mae'r llwyni yng Nghae Nant wedi eu symud, diolch i'r Cynghorydd Rowley Williams am drefnu'r gwaith ac i'r Cynghorydd Parry am ailhadu.

BT diffygiol tu allan i'r Neuadd – caead ar goll – wedi ei grybwyll ers 2017, ond dim wedi digwydd.

Band eang i'r Ystafelloedd Coco – mae cyfarpar mewnol wedi ei osod, ond nid oedd Openreach wedi cwblhau'r gwaith allanol. Yn ôl pob golwg, problemau tebyg yn y pentrefi cyfagos – mae Openreach yn fyr o adnoddau ac ni roddir blaenoriaeth i adeiladau cymunedol.

Mae'r Cyngor Cymuned wedi gwneud cais am arwyddion yn rhybuddio gyrwyr ceir am

geffylau yn ymyl y stablau ar y B5429, ond yn dal i aros am ymateb oddi wrth yr Uned Diogelwch ar y Ffyrdd.

Hysbyswyd Dŵr Cymru a Chyngor Sir Ddinbych am y dŵr sy'n cronni ar wyneb y ffordd tu allan i'r gwaith trin carthion, ond heb ymateb. Yn fuan bydd rhew ar y ffordd a mae'r CC yn ceisio bod yn weithredol yn hytrach nag adweithiol.

Mae'r CC wedi gwneud cais ar y cyd â Chyngor Tref Dinbych i weld a ellir gweithredu rhyw fesurau costeffeithiol o ran Pont Glan y Wern. Mae un ochr i'r bont yn gyfrifoldeb Cyngor Tref Dinbych a'r ochr arall o dan CC Llandyrnog – mae'r gwaith mewn llaw.

Mae'r Cynghorydd Parry wedi gofyn i Marc Roberts, arbenigwr ar waith cymunedol, gael pris am roi digwyddiad cymunedol o ran pob adeilad cyhoeddus yn Llandyrnog a'r manau chwarae yn y pentre.

Cynllunio – tri mater wedi'u trafod:

- \* Estyniad i Goed Coppi Fancer
- \* Deuddeg panel solar wedi eu gosod ar y ddaear ym Mhen y Bryn, Llangwyfan
- \* Ymgynghoriad cyn gwneud cais gan Caulmert ynglŷn â chynlluniau datblygu tir ger Maes Llan.

Mae Cymdeithas Chwaraeon a Phêl Droed Llandyrnog yn bwriadu gwneud cais am arian i ehangu'r pafiliwn er mwyn ei wneud yn fwy o ganolbwynt i'r pentre'. Dangoswyd cynlluniau cysyniadol, ond nid oedd cais ffurfiol wedi ei wneud gan y Gymdeithas hyd yn hyn.

## Townsend Supplies

Townsend, Denbigh LL16 3AW

01745 814918

**For all farmyard & agricultural  
accessories & building supplies**

- ☞ **Tanalised timber**
- ☞ **Concrete posts**
- ☞ **Panel fencing**
- ☞ **Water pipe fittings**
- ☞ **Water tanks**
- ☞ **Sand**
- ☞ **Cement**
- ☞ **Concrete blocks**

## Rhifau Ffôn Defnyddiol

Canolfan Gofal Cwsmer Cyngor Sir Ddinbych  
— 01824 706101

Rhif ffôn Cyngor Sir Ddinbych y tu allan  
i oriau swyddfa — 0300 123 3068

Heddlu Gogledd Cymru 101 (heb frys)  
Riportio baw cŵn 0800 2300 2345